

No.

PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2022

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cyngorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.D.D. Carroll, C.A. Cave, M.J.G. Morgan, R.A. Penrose, S.D. Perkes, A.R. Robertson and M.R. Wilson

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), S. Griffiths (Cyngor Cymuned Dinas Powys), H. Baker (Cyngor Cymuned Ewenni), Dr. A. Rees (Cyngor Cymuned Llancarfan), R. Thomas (Cyngor Cymuned Llandow), G. Kellen (Cyngor Cymuned Pendeulwyn), Dr. S. Howells (Cyngor Cymuned Pen-llin), A. Phillips (Cyngor Cymunedol Llanbedr-y-fro), A. Barnaby (Cyngor Cymunedol Sain Tathan), M. Jeffreys (Cyngor Cymunedol Sain Dunwyd), W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái), I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn), C. Tatt (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

778 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

779 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H. Weddell (Cyngor Tref Y Bont Faen), D. Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan), G. Smith (Cyngor Cymuned Llan-faes) and G. Marks (Llanfihangel-y-pwll gyda Chyngor Cymunedol Leckwith).

780 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2021 a 4 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

781 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

782 MATERION HEDDLU -

Rhoddodd y Prif Arolygydd Rees ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y materion plismona canlynol ar gyfer ardal Bro Morgannwg:

- Troseddau ar gyfer y cyfnod 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2021, ar gyfer ardaloedd y Fro / Penarth a'r Barri, o gymharu â'r un cyfnod yn 2020.
- Ymholiadau a chwynion ynglŷn â defnyddio e-sgwteri.
- Ymgyrch Ovenbake i fynd i'r afael â thuedd ar i fyny mewn cwrso / hela ysgyfarnogod ar draws tir fferm yn y Fro wledig, a
- Blaengynllunio wrth i economi'r nos ailagor, rygbi'r chwe gwlad sy'n digwydd a pharatoi ar gyfer tywydd da / yr haf.

Dywedodd y Prif Arolygydd Rees hefyd wrth y Pwyllgor am ei dyrchafiad diweddar i'r rôl Pennaeth Gweithrediadau, sy'n gyfrifol am blismona gweithredol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Bydd yn dechrau ar y rôl honno ym mis Ebrill 2023 yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Felly Byddai'r Arolygydd Stuart McDean, yr Arolygydd Heddlu Lleol cyfredol ar gyfer Penarth a De Caerdydd, yn cael ei ddyrchafu dros dro i'r rôl Prif Arolygydd a byddai'n cefnogi'r Pwyllgor wrth symud ymlaen.

Yn dilyn diweddariad y Prif Arolygydd a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, darparwyd y cyngor canlynol hefyd:

- Byddai adborth a gafwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd wedi mynd ar goll neu sydd wedi dyddio, yn ogystal â dulliau cyswllt amgen ar gyfer yr heddlu, sydd ar gael ar wefan Heddlu De Cymru, yn cael ei fwydo'n ôl i ddesg ddigidol yr heddlu / y tîm TGCh. Cydnabuwyd y byddai diweddariadau rheolaidd i'r wefan yn helpu i gefnogi trosglwyddo gwybodaeth leol rhwng aelodau etholedig a swyddogion yr heddlu yn ystod cyfnodau o newidiadau staffio'r heddlu.
- Byddai cyngor cyfreithiol pellach ynghylch defnyddio e-sgwteri a byrddau hofran, yn ogystal â ffeithluniau priodol, yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod i aelodau e dosbarthu ymhlith eu cymunedau.
- Roedd 'llinellau cyffuriau', a ddefnyddiwyd fel pennawd bras i ddisgrifio pocedi o droseddu cyfundrefnol a masnachu mewn cyffuriau, yn dal i fod yn fater parhaus i'w ymchwilio gan yr heddlu, fodd bynnag, nid oedd unrhyw rwydweithiau llinellau cyffuriau penodol yn cael eu harchwilio ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd. Gweithredwyd ar achosion o ddefnyddio cyffuriau neu fasnachu ar unwaith i sicrhau bod yr ardal yn parhau i fod yn rhwystr i unrhyw rwydweithiau troseddu sy'n dymuno mynd i mewn i'r ardal.

No.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach a godwyd, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD - Y DYLID diolch i'r Prif Arolygydd Rees am ei hamser a'i diweddariad ar lafar.

783 MATERION GWASANAETH TÂN AC ACHUB

Rhoddodd Mr Hadfield, Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y pedwar dangosydd strategol allweddol; gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, tanau damweiniol mewn anheddau, achosion o osod tân yn fwriadol a galwadau gwasanaeth arbennig ar gyfer ardal Bro Morgannwg ac roedd yn falch o ddweud bod yr ystadegau ar gyfer y pedwar dangosydd wedi gostwng ac yn sefydlog.

Hefyd, rhoddodd Mr Hadfield wybod am y materion canlynol i'r Pwyllgor:

- Gostyngiad mewn tanau damweiniol mewn tai o ganlyniad i gyfyngiadau cymdeithasol Covid-19 a phobl yn gweithio gartref, fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn barod i asesu'r sefyllfa yn dilyn codi cyfyngiadau cymdeithasol.
- Roedd Academi'r Cadetiaid wedi ail-agor ac ymweliadau ysgol Cyfnod Allweddol 1 a 2 wedi aildechrau.
- Cynlluniwyd ymarferion ar raddfa fawr yn ystod 2022 yn Nociau'r Barri a gorsaf bŵer Aberddawan.
- Roedd materion staffio o ganlyniad i bandemig Covid-19 wedi bod yn sefydlog ac yn cael eu rheoli'n effeithiol, ac roedd ymgyrch recriwtio gwasanaethau 2022 wedi cau yn ddiweddar.

Yn dilyn diweddariad y Rheolwr a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Cynghorydd Perkes, ychwanegodd Mr Hadfield, yn anffodus, y bu achosion o ymosodiadau yn ardal De Cymru a chafodd y gwasanaeth tân gefnogaeth ragorol gan wasanaeth yr heddlu mewn ymateb. Nid oedd yr achosion wedi atal y gwasanaeth rhag cwblhau'r dasg dan sylw. Gellid rhoi cyflwyniad pellach ar y mater i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach a godwyd, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD –

- (1) Y DYLID diolch i Mr Hadfield am ei amser a'i ddiweddariad ar lafar.
- (2) Rhoi cyflwyniad ar Ymosodiadau ar Griw Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Ardal De Cymru gyfan, gan nodi graddfa ac ymateb i achosion o'r fath, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 27 Ebrill 2022.

784 GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
(TREFNIADAU ETHOLIADOL) 2021 (CYF) –

Cyflwynodd Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau Cyngor Bro Morgannwg y cyfeiriad gan y Cabinet ar 22 Tachwedd 2021 er gwybodaeth y Pwyllgor.

Dechreuodd yr adroddiad drwy ddweud, ar ôl cwblhau rhaglen o arolygon trefniadau etholiadol o bob Cyngor Sir / Cyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, fod Comisiwn Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") wedi cyflwyno pob un o'i 22 o'i Adroddiadau Argymhellion Terfynol i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'w hystyried. Gwnaed nifer o Orchmynion cysylltiedig hefyd gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("y Gorchymyn") a wnaed ar 11 Hydref 2021 a oedd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at baragraff 2.1 o adroddiad y Cabinet a atodir a oedd yn crynhoi'r newidiadau sy'n berthnasol i ardal Bro Morgannwg o ganlyniad i'r Gorchymyn; mewn perthynas ag enwau Cymraeg a Saesneg y wardiau etholiadol (cynyddodd y nifer o 23 i 24), ardal y wardiau etholiadol a'r nifer cyfatebol o aelodau ar gyfer pob ward etholiadol.

Nodwyd y byddai'r trefniadau etholiadol diwygiedig yn dod i rym ar 5 Mai, 2022, yn barod ar gyfer Etholiadau Lleol 2022 (pan fyddai nifer yr Aelodau Etholedig ar gyfer Bro Morgannwg yn cynyddu o 47 i 54), pryd y byddai'r wardiau etholiadol presennol yn cael eu diddymu.

O ganlyniad i'r Gorchymyn, byddai nifer o Ddosbarthiadau Etholiadol o fewn gwahanol wardiau etholiadol a bu angen nifer o newidiadau i gyfeirnodau'r Dosbarthiadau Etholiadol a manylwyd ar y rhain yn Atodiad B ac C i adroddiad y Cabinet.

Nodwyd hefyd y byddai cyfeirnodau'r Dosbarthiadau Etholiadol hefyd yn berthnasol i Wardiau Cymunedol ac y byddai ffiniau Cyngorau Tref a Chymuned yn aros yr un fath yn sgil y Gorchymyn gyda'r Adolygiad Cymunedol ar gyfer Bro Morgannwg i'w gynnal yn 2023.

Mewn ymateb i Gynrychiolydd Cyngor Tref Llanilltud Fawr yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd gan ward UD0 (Trebefered) orsaf bleidleisio barhaol ar hyn o bryd, cadarnhaodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a Chanlyniadau fod y gwaith o gynllunio gorsafodd pleidleisio ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol Mai 2022, ac nad oedd yn anarferol i'r Cyngor osod gorsaf dros dro. Fodd bynnag, roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried y gwersi a ddysgwyd o etholiadau blaenorol a chyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol o ganlyniad i'r pandemig cenedlaethol, er y gallai'r canllawiau ynghylch ymbellhau cymdeithasol newid cyn etholiadau mis Mai.

Yna, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith nad oedd erthygl 2, tudalen 7 o'r Gorchymyn, yn cyfeirio at gymunedau Marcroes, yr As Fawr ac Aberogwr er iddynt gael eu diffinio o fewn y map ffiniau dilynol. Mewn ymateb, cydnabu'r

No.

Swyddog nad oedd y disgrifiad ardal ar gyfer ward Saint-y-brid mor hir ag y gallai fod, ac roedd hyn mwy na thebyg wedi'i wneud i osgoi enw ward neu ddisgrifiad ardal hir. Fodd bynnag, roedd y ddau ffactor hyn bellach wedi'u sefydlu ar ôl mabwysiadu'r gorchymyn ar 11 Hydref 2021.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach a godwyd, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD –

- (1) Nodi Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("y Gorchymyn") sydd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad Cabinet dan sylw.
- (2) Nodi ffiniau'r wardiau etholiadol canlyniadol a diwygiadau i'r Dosbarthau Etholiadol fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad Cabinet dan sylw.
- (3) Nodi'r cyfeiriad at y Dosbarthau Etholiadol fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad Cabinet dan sylw

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1-3) Ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad Cabinet sydd wedi'i atodi.

785 LLEOEDD PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO: ADOLYGIAD BACH (CYF)

Cyflwynodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg y cyfeiriad gan y Cabinet ar 22 Tachwedd 2021 er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Nododd yr adroddiad y cynhaliwyd adolygiad bach o Fannau a Gorsafoedd Pleidleisio gan ystyried adborth gan Swyddogion Llywyddu a sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn dilyn Etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2021. Rhoddwyd sylw hefyd i'r mesurau diogelwch Covid a oedd ar waith ar y pryd ac y rhagwelir ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022.

Ychwanegodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol fod ymweliadau wedi bod fel rhan o'r adolygiad bach i bob un o'r Mannau a'r Gorsafoedd Pleidleisio presennol ac arfaethedig a nodwyd fel rhai oedd angen rhoi sylw iddynt, a bod ymgynghori wedi bod gydag Aelodau Ward Lleol.

Roedd canlyniad yr adolygiad bach a'r newidiadau oedd yn eu hargymell i Fannau a/neu Orsafoedd Pleidleisio mewn nifer o wardiau etholiadol (fel y nodir ym mharagraffau 2.2 – 2.18 o adroddiad y Cabinet sydd wedi'i atodi) yn adlewyrchu'r newidiadau i wardiau etholiadol a wnaed gan Orchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("Gorchymyn 2021").

No.

I gloi, rhoddodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wybod am ddau newid pellach i leoliadau gorsafoedd pleidleisio ers i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Cabinet oherwydd cau adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel gorsaf bleidleisio (neuadd Bentref Gymunedol Ewenni) a chwblhau gwaith adnewyddu (Neuadd Bentref Llandŵ). Er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn cael gwybod am y newidiadau dilynol, cytunodd y Pwyllgor y dylid cyfeirio'r diweddariadau yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried.

Er mwyn bod yn gyflawn, dywedodd y Cyngorydd Cave wedyn nad oedd ardal bleidleisio Ewenni (WD0) bellach yn dod o dan y dosbarthiadau etholiadol yn ei ward leol o ganlyniad i'r adolygiad; Llandŵ.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach a godwyd, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD – Nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Mannau Pleidleisio a / neu'r Gorsafoedd Pleidleisio fel y'u nodir ym mharagraffau 2.2 – 2.18 o'r adroddiad Cabinet dan sylw yn amodol ar gyfeirio'r diweddariadau canlynol at y Cabinet er gwybodaeth hefyd:

Saint-y-brid – WE0

Newid lleoliad yr orsaf bleidleisio:

O: Neuadd Bentref Gymunedol Ewenni Corntown Road, Ewenni, CF35 5BG.

I: Clwb Criced y Fro, Corntown Road, Corntwn CF35 5BA.

Rheswm: Caeodd Neuadd y Pentref tra'n aros am gynnal gwaith adnewyddu.

Llandŵ – TD0

Newid lleoliad yr orsaf bleidleisio:

O: Eglwys y Drindod Sanctaidd Llandŵ – gyferbyn â'r Great House, Llandŵ, Bro Morgannwg y Bont-faen, CF71 7NT.

I: Neuadd Bentref Llandŵ, Llandŵ, CF71 7NT.

Rheswm: Mae'r gwaith adnewyddu bellach wedi'i gwblhau yn Neuadd y Pentref gyda gwell amwynderau

Rhesymau dros y penderfyniadau

Ystyried cynnwys y cyfeiriad, adroddiad y Cabinet atodedig a diweddariad llafar gan Swyddog Canlyniadau Bro Morgannwg.

786 BWRD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG –
ASESIAD LLESIANT DRAFFT (PW) –

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes gyda chymorth yr Uwch Swyddog Data a Pholisi yr adroddiad, gyda'r nod o geisio barn y Pwyllgor ar yr Aseiad Lles drafft ("yr Aseiad").

Roedd yr Aseiad yn ddyletswydd statudol a osodwyd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r fersiwn a roddwyd i'r Pwyllgor drwy hyperddolenni o fewn paragraff 2.9 o'r adroddiad

No.

egglurhaol oedd yr ail asesiad a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg hyd yma

Rhaid i'r Asesiad ystyried cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn ardal a darparu dadansoddiad o gyflwr lles yr ardal gyfan ac ar gyfer ardaloedd cymunedol penodol. Ychwanegodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes fod yr Asesiad wedi defnyddio ystod o ddata, ymchwil a thystiolaeth genedlaethol a lleol. Nodwyd dadansoddiad o'r wybodaeth mewn cyfres o adroddiadau (paragraff 2.9) a oedd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Asesiad ac yn adrodd hanes profiadau lles ym Mro Morgannwg. Yn ogystal â'r adroddiad eglurhaol, darparodd Swyddogion gyflwyniad PowerPoint i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau allweddol hyd yma.

I gloi, dywedodd Swyddogion fod rhaid cyhoeddi'r Asesiad cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai '22 a bod rhaid ymgynghori â nifer o ymgynghoreion statudol, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu dynodedig ar gyfer y BGC. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd i roi cyfle i aelodau fwydo i mewn i'r broses ymgynghori.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau a gwneud sylwadau ar y pynciau canlynol:

- Dulliau ymgysylltu â'r ymgynghoriad,
- Data i ddangos cynnydd yn nhwf y diwydiant ffermio,
- Data i ddangos tystiolaeth o ddiwydiant pysgota gweithredol yn yr ardal,
- Dim sôn am leoliad ac argaeledd meddygfeydd mewn rhai rhannau o'r Fro o fewn canfyddiadau'r Asesiad,
- Nid yw holl ardaloedd y Fro sy'n cael eu hystyried fel llefydd â pherygl llifogydd yn cael eu crybwyll yng nghanfyddiadau'r Asesiad,
- Dim sôn am y diffyg rhandiroedd sydd ar gael yn yr ardal,
- Datblygiadau cynllunio yn cael eu cymeradwyo a'u hadeiladu ar fannau gwyrdd ym Mro Morgannwg er i'r Asesiad awgrymu bod prinder mannau agored gwyrdd yn yr ardal,
- Canfyddiadau'r Asesiad yn cael eu defnyddio ym mhob un o adrannau'r Cyngor i ddangos dull cydgysylltiedig o ymdrin â phenderfyniadau a pholisiau'r Cyngor,
- Goblygiadau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru,

Mewn ymateb, dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor, Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes yn ogystal ag Aelodau Etholedig Bro Morgannwg:

- Roedd pob partner BGC yn gyfrifol am gyfrannu at yr ymgynghoriad Asesu a'i hyrwyddo. O ran dull gweithredu'r Cyngor, roedd hyn ar-lein yn bennaf gyda dulliau eraill ar gael ar gais. Roedd yr arolwg ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor a gwahoddwyd yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i fynychu gweithdy rhanddeiliaid a drefnwyd ym mis Chwefror '22.

No.

- Byddai rhagor o wybodaeth/data yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod mewn perthynas â Pheryglon Llifogydd a Diwydiannau Twf ym Mro Morgannwg.
- Roedd Meddygfeydd yn fater a reolir gan y Bwrdd Iechyd fel y'i nodir yn Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022. Byddai copi o Asesiad Anghenion y Boblogaeth hefyd yn cael ei anfon at Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.
- Roedd yr ardaloedd o lifogydd yn yr Asesiad yn ymwneud â risgiau yn y dyfodol yn hytrach nag hyn o bryd.
- Byddai cyfeiriad at y gwaith hyrwyddo a'r angen am fwy o randiroedd yn cael ei ychwanegu at yr Asesiad drafft o dan yr agenda 'symud mwy, bwyta'n dda'.
- Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor fyddai'n ymdrin ag unrhyw geisiadau cynllunio. Nododd yr Asesiad dwf ym mhoblogaeth Bro Morgannwg gydag angen cynyddol am dai ac felly roedd angen cydbwysedd i ddiwallu anghenion y boblogaeth a diogelu mannau agored yn yr ardal. Roedd y Cyngor wrthi'n ymgynghori ar ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) y gallai aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau'r Cyhoedd ymgysylltu ag ef.
- Roedd proses ymgynghori'r CdLIN yn hynod bwysig i bennu'r mannau sydd ar gael i'w datblygu yn yr ardal yn y dyfodol. Ychydig iawn o'i stoc ei hun a adeiladodd y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly roedd ceisiadau am ddatblygiadau a'r gwaith adeiladu wedi cael ei wneud yn bennaf gan ddatblygwyr eiddo allanol.
- Roedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn haen newydd o lywodraeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddai swyddogaethau Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn newid wrth gyflwyno Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru. Rôl y Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru newydd fyddai edrych ar faterion strategol ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn gyffredinol.
- Roedd y Cyngor yn dechrau adeiladu mwy, a chynyddu maint ei stoc adeiladu tai ei hun i ddiwallu anghenion a nodwyd a oedd yn gam cadarnhaol ymlaen.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach a godwyd, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD –

(1) (1) Nodi'r Asesiad Lles drafft, fel y'i nodir ym mharagraff 2.9 o'r adroddiad eglurhaol.

(2) Cyfeirio barn y Pwyllgor, fel y nodir yn y cofnod uchod, ynghylch y cynnwys, y strwythur a'r casgliadau a nodir yn yr asesiad, at y BGC i lywio'r broses ymgynghori ffurfiol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1a2) Galluogi'r Pwyllgor i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ffurfiol ar yr Asesiad Lles yng ngoleuni'r gofyniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi'r Asesiad erbyn 4 Mai 2022.